HUGHES, JOHN (1775 - 1854), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, awdur, ac emynydd

Enw: John Hughes
Dyddiad geni: 1775
Dyddiad marw: 1854
Priod: Ruth Hughes (née Evans)
Plentyn: Jane Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, awdur, ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd ym Mhenyfigin, Llanfihangel yng Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, 22 Chwefror 1775. Dysgodd grefft gwehydd, ond ar ôl gwrando ar Thomas Jones, Llanwnnog, yn pregethu, ac ymuno â'r seiat Fethodistiadd ym Mhenllys, fe ddaeth i sylw Thomas Charles, Bala, a chyflogwyd ef yn athro yn yr ysgolion cylchynol. Bu'n cadw ysgol mewn amryw fannau. Bu'n lletya un adeg yn Nolwar Fach, a gwyddys ei fod yn gyfeillgar ag Ann Griffiths yn 1800; gohebodd lawer â hi o hynny hyd 1805. Dechreuodd bregethu yn 1802; ordeiniwyd ef yn sasiwn y Bala, 1814, ac ymsefydlodd yn Nh Capel Pontrobert. Priododd Ruth Evans, morwyn Dolwar, yn 1805; ef a'i briod a ddiogelodd i'r genedl emynau a llythyrau Ann Griffiths. Un aflêr ei olwg ac aflafar ei lais ydoedd; eto yr oedd yn bersonoliaeth hynod ac ni fu amheuaeth erioed am ei dduwioldeb. Ysgrifennodd lawer i gyfnodolion ei oes, a chyhoeddodd gofiannau, casgliadau o emynau, a phregethau. Ei gofiant hynotaf yw'r un i Ann Griffiths (a ymddangosodd yn *Y Traethodydd*, 1846, ac yn llyfryn yn 1854). Cyhoeddodd hefyd *Cofiant Owen Jones o'r Gelli*, 1830, *Cofiant William Jones, Dol-y-fonddu, ac E. Griffiths, Meifod*, 1841, a *Cofiant Abraham Jones, Aber-rhaiadr, a John Price, Trefeglwys*, 1841. Ceir ei emynau yn *Cyfansoddiad Prydyddawl ar Lyfr Caniad Solomon*, 1821; *Hymnau i'w canu yn yr Ysgolion Sabbothol*, 1821; a nifer o ' *Hymnau i leuenctyd* ' yn niwedd *Cofiant John Bebb* (W. Owen, 1829). Ymddangosodd ei hymnau gorau yn y cyfnodolion cyfoes, ac y mae'r rheini mewn bri o hyd. Cyhoeddodd bedwar casgliad o bregethau yn 1836 a 1838. Un o gyfeillion bore'i oes oedd John Davies y cenhadwr (1772 - 1855, ac o berthynas iddo cyhoeddodd *Hanes Mordaith John Davies*, 1827, a golygodd *Trefn Eglwysig Ynysoedd Mor y Dehau* (d.d.) - cyfres o lythyrau ato oddi wrth ei gyfaill. Bu farw 3 Awst 1854, a chladdwyd ef ym Mhontrobert.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y Traethodydd, 1890, 364-75

O. M. Edwards, *Gwaith John Hughes* ('Cyfres y Fil')

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 104-6

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 4431128

Wikidata: Q20733450

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu